PWYLLGOR: **BWRDD PENSIWN**

DYDDIAD: **17 MAI 2019**

TEITL: **CAP AR DALIADAU YMADAEL Y SECTOR CYHOEDDUS**

PWRPAS**:** **ER GWYBODAETH / ANNOG YMATEB?**

AWDUR: **DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID**

---

1. Gweler yn amgaeedig –
   - dogfennau ymgynghoriad Trysorlys EM ynglŷn â 'cyfyngu taliadau ymadael yn y sector gyhoeddus' - h.y. gweithredu cap taliad ymadael o £95K (Atodiad A).
   - papurau sydd wedi'u paratoi gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol (LGA) mewn ymateb i gyhoeddiad ymgynghoriad Trysorlys EM -
     - crynodeb (Atodiad B), a
     - papur briffio technegol Atodiad C)

2. Mae'r papur briffio technegol yn egluro nifer o faterion yn ogystal ag adnabod rhai materion allweddol sydd angen rhywfaint o eglurhad pellach.

3. Mae'r mater arwyddocaol i ni yng Nghymru yn ymwneud â'r pwerau i lacio'r cyfyngiad ar daliadau ymadael cyhoeddus. Nid yw cyfarwyddiadau Trysorlys EM ar gyfer llacio yn berthnasol i daliadau ymadael a wneir gan awdurdod Cymreig datganoledig. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau i lacio'r cyfyngiadau. Ar hyn o bryd, ni wyddom beth a wnaiff Llywodraeth Cymru i ymarfer y pŵer hwn.

4. Dyma rhai o'r prif faterion (mae manylion llawn ym mhapur briffio technegol yr 'LGA') -
   - Mae'r rheoliadau yn berthnasol i'r sector gyhoeddus yng Nghymru - ond nid yw cyfarwyddiadau Trysorlys EM ar gyfer llacio yn berthnasol.
   - Diffiniad o beth sy'n 'ymadawiad perthnasol' a beth sydd ddim (tudalen 3) - nid yw ymddeoliad hyblyg gyda'r un contract yn cael ei gwmpasu gan y rheoliadau.
   - Diffiniad o beth sy'n ffurfio rhan o daliad ymadael (tudalen 4) - nid yw 'PILON' (payment in lieu of notice) cytundebol o ddim mwy na 25% yn cael ei gynnwys - mae 'PILON' di-gytundeb yn cael ei gynnwys.

- Pensiynau – bydd y Rheoliadau newydd wrth iddynt gael eu gweithredu yn diwygio’n awtomatig rhai elfennau o Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 - manylion ar dudalen 5.
- Pensiynau - mynegwyd rhai pryderon yn y briff am gyfrifiad y ‘straen’ pensiwn - mae’r rhain wedi’u hadnabod ar dudalen 6.
- Llacio'r Cyfyngiadau - mae’r rhain wedi’u gosod allan ar dudalen 7 ond nid ydynt yn berthnasol i Gymru fel y nodir uchod. Maent fodd bynnag yn son am ‘diwygio’r gweithlu’ ac ymadawiadau sydd wedi’u cynllunio o flaen llaw.

5. Mae mwy o gwestiynau nac atebion ar hyn o bryd, yn enwedig o ran safbwynt Llywodraeth Cymru. Mae rhai o’r materion allweddol fel pe bae’n gorwedd efo Llywodraeth Cymru – a fyddai’n gallu ‘llacio'r cyfyngiadau’ i raddau helaeth. Amser a ddengys!

6. Un awgrym i’w glywed o fewn llywodraeth leol yng Nghymru yw fod ‘cap ymadael’ ar gyfer Cymru ddim i gynnwys ‘straen’ pensiwn a dylai Llywodraeth Cymru lacio’r gofyn yn briodol.

7. Mae’r ymgynghoriad yn cau ar 3 Gorffennaf 2019. Mae pob cyflogwr llywodraeth leol yn rhydd i gyflwyno eu hymateb eu hunain. Bosib bydd y Bwrdd awydd annog cyflogwyr Cronfa Gwynedd i ymateb?